



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

24 CHWEFROR 2021

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adolygiad Thematig Estyn

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno adroddiad thematig Estyn 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau i ymateb i COVID-19' i aelodau'r Cyd-Bwyllgor (gweler Atodiad 1).

2.0 Cefndir

2.1 Mewn ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg, gofynnwyd i Estyn gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19.

2.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod o ddiwedd tymor yr haf i ddiwedd yr hydref 2020. Rhoddir trosolwg o'r ffordd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UC Dau) i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion bregus yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng Mehefin a Thachwedd 2020, sef y cyfnod pan oedd ysgolion yn ailagor yn dilyn y cyfnod clo. Mae'n cofnodi'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi addasu'u gwaith i ymateb i'r heriau yn deillio o COVID-19.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Mae cwmpas yr adroddiad thematig hwn yn cynnwys graddau'r cymorth a ddarparodd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddwy agwedd yn benodol:

- Hyrwyddo dysgu – ansawdd y cynnig dysgu a sut mae canllawiau pellach a dysgu proffesiynol wedi ategu hyn?
- Cefnogi disgyblion bregus – sut gwnaeth yr awdurdod lleol dargedu gwasanaethau a chymorth at ddisgyblion bregus i'w helpu i ymhél â dysgu? Pa rwystrau sy'n bodoli o hyd?

3.2 Hefyd, rhoddir ystyriaeth i'r gwaith cynllunio cynnar a gweithredu ar gyfer y grant 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' ar draws ysgolion ac UC'Dau, a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn.

3.3 Mae'r adroddiad yn cynnwys 'cameos' o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r cameos wedi eu cynnwys i ddangos enghreifftiau o bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, gan roi blas o'r gwaith sydd wedi digwydd ledled Cymru.

3.4 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill. Bydd GwE yn ymateb i'r argymhellion yma wrth gynllunio a gweithredu eu rhaglen waith.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad Thematig Estyn

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, felly cymeraf bydd unrhyw ymateb i'r argymhellion oddi fewn yr adolygiad thematig yma i'w flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol GwE.